Ysgol Glan Conwy,
Glan Conwy,
Conwy.
LL28 5ST

Pennaeth: Mrs Eifiona Price Williams
Tel: 01492 580421
e-bost: swyddfa@glanconwy.conwy.sch.uk

Annwyl Rieni / *Dear Parents*, 27/03/23

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn holl bwysig i addysg plentyn. Gall hyd yn oed absenoldeb byr amharu ar addysg ac mae hyn yn fwy, fwy pwysig erbyn hyn yn dilyn yr holl darfu fu ar ein bywydau oll, gan gynnwys ysgolion, yn sgil Covid.

Yr ydym yma, yn Ysgol Glan Conwy wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn cael yr addysg orau posib a'u bod yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial llawn.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob plentyn fynychu'r ysgol o leiaf 95% o'r amser!

Mae colli ysgol yn tanseilio cyfle eich plentyn i gyrraedd ei lawn botensial. Mae'n ffaith fod presenoldeb cyson yn cynyddu cyfleoedd plant i lwyddo yn yr ysgol. Os nad yw plant yn mynychu'r ysgol y tebygrwydd yw nad ydynt yn dysgu! Mae'n amlwg fod presenoldeb da yn sylfaen gadarn i ddatblygiad plentyn. Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn gwbl hanfodol er mwyn i'r plant lwyddo yn y dyfodol.

Presenoldeb yr ysgol gyfan dros y tymor yma ydyw **93.32%** sydd yn well na thymor diwethaf ond dal yn is i'w gymharu â tharged Llywodraeth Cymru. Ar y dudalen nesaf gweler esboniad o faint o amser dysgu sy'n cael ei golli trwy bresenoldeb amrywiol.
Mae presenoldeb o bwys pan fo dyfodol eich plentyn yn y fantol. Os ydych yn cael trafferth gyda phresenoldeb eich plentyn, yna dewch i drafod. Rydym yma i'ch cefnogi.

****

Attendance and punctuality are essential to a child's education. Even short absences can impair their learning, and this is now increasingly important following all the disruption Covid brought to everyone's lives, including schools.

We at Ysgol Glan Conwy are fully committed to ensuring that every child attending the school receives the best possible education and support to achieve their full potential.

The Welsh Government expects every child to attend school at least 95% of the time!

Missing school undermines your child's opportunity to achieve their full potential. It's a fact that regular attendance increases children's opportunities to succeed at school. If children are not attending school, they probably aren't learning! Good attendance clearly provides a sound foundation for a child's development. Regular school attendance is essential for a child's future success.

*Our whole school attendance for last term is only **93.32 %,** which is better than last term but still below the Welsh Government target of 95%. On the next page, there is an explanation of how much learning time is missed at various levels of attendance percentages.*

Attendance is important when your child's future is at stake. If you're having difficulties with your child's attendance, please contact us to discuss the matter. We're here to support you.

Presenoldeb *Attendance*	Canllawiau Cenedlaethol / *National Guidelines:*
95% - 100%	**Rhagorol** – Y cyfle gorau o lwyddiant. Mae eich plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. ***Excellent*** *– Optimum chance to achieve well. Your child is taking full advantage of every learning opportunity.*
90% - 95%	**Boddhaol** – Efallai y bydd yn rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith. ***Satisfactory*** *– Maybe your child may have to spend time catching up with work.*
85% - 90%	**Anfoddhaol** – Gall eich plentyn fod mewn peryg o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthych i ddal i fyny â gwaith. ***Unsatisfactory*** *– Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.*
80% - 75%	**Anfoddhaol iawn** – Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. ***Very unsatisfactory*** *– Your child's poor attendance has a significant impact on learning.*
Islaw / Below 80%	**Perygl** – Wedi colli 7 1/2 wythnos o ddysgu! Mae eich plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. ***Danger*** *– Your child has lost at least* 7 ½ weeks of learning. Your child is missing out on a broad and balanced education.

175 o ddiwrnodau mewn blwyddyn lle nad oes ysgol!
Yr holl amser yma i siopa, mynd ar wyliau neu apwyntiadau.
175 non-school days a year!
All this time for shopping, holidays and appointments.



Yn gywir / *Yours sincerely*

EPrice Williams